GORCHYMYN SIR BENFRO (CROWHILL ROAD (B4330) HWLFFORDD) (GWAHARDD TRAFFIG CERBYDOL DROS DRO) 2022

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu, nid llai na saith diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol fel y gellir gwneud gwaith i adeiladu llwybr troed newydd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd yr holl draffig cerbydol dros dro, oni bai am gerbydau eithriedig, rhag mynd ar hyd y rhan honno o Crowhill Road (B4330), Hwlffordd – o bwynt ger rhif 9 Crowhill Road, i'r gogledd i'w chyffordd â St Martins Park.

Y llwybr amgen ar gyfer traffig fydd trwy Sheltery Hill a Phont y Santes Catrin (C3087), ffordd yr A40(T) Abergwaun i Hwlffordd, Heol Abergwaun, Ffordd Sydney Rees, cylchfan Bridgend Square, ffordd osgoi'r hen bont yr A487, ac ynys draffig Churnworks.

Y bwriad yw y bydd y cyfyngiadau, a fydd yn cael eu dangos gan arwyddion ffyrdd priodol, yn dod i rym ddydd Mercher 2 Mawrth 2022 ac yn parhau mewn grym am oddeutu saith wythnos.

Bydd y Gorchymyn yn parhau i fod yn ddilys am uchafswm o 12 mis fel cynllun wrth gefn pe bai angen aildrefnu'r gwaith neu os bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl.

Dyddiedig y 9fed diwrnod hwn o Chwefror 2022

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd